Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Effaith lle mae'n cyfrif fwyaf

Crynodeb o'n gwaith yn 2022–2023

# Amdanom ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol mwy na 788,000 o nyrsys a bydwragedd proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae mewn troi hyn yn realiti.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr.  Yn ail, rydym yn cynnal cofrestr y gweithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chydymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bychan o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi'r cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn yn gweithredu bob amser pan fydd angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cynorthwyo** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol trwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i ddarparu ein safonau mewn ymarfer a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cynorthwyo pobl sy'n cymryd rhan yn ein hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein gweladawyedd fel bod pobl yn teimlo eu bod yn cymryd rhan ac wedi'u grymuso i ffurfio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chynorthwyo ein proffesiynau yn caniatáu inni **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddiol ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gynorthwyo cynllunio'r gweithle a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i lefaru dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

# Ein cofrestr mewn rhifau

**Ar 31 Mawrth 2023 roedd:**

**731,058** Nyrs

**41,716** Bydwraig

**6,525** Cofrestriad deuol

**9,339** Cydymaith nyrsio

Cyfanswm y gofrestr **788,638**

(O gymharu â 758,303 y flwyddyn flaenorol)

**Ym Medi 2022**, gofynnodd y Llywodraeth inni gadw cofrestr dros dro **Covid-19 yn agored am ddwy flynedd ychwanegol**. Fe wnaethom adolygu'n trefniadau a gwnaethom newidiadau i sicrhau ein bod yn cynnal y gofrestr yn ddiogel ac yn deg.

Ar **31 Mawrth 2023** roedd **1,992 o bobl ar y Covid-19 gofrestr dros dro**.

# Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein cofrestr

Mae **27.7%** o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, o gymharu â **24.7%** yn y flwyddyn flaenorol.

---

Dywedodd **3%** wrthym fod ganddynt anabledd, o gymharu â **3.2%** yn y flwyddyn flaenorol.

---

Dywedodd **89%** wrthym eu bod yn fenywod, o gymharu â **89.1%** yn y flwyddyn flaenorol.

---

Dywedodd **11%** wrthym eu bod yn ddynion, o gymharu â **10.9%** yn y flwyddyn flaenorol.

---

Dywedodd **0.85%** nad yw hunaniaeth eu rhywedd yn cydweddu â'r rhyw y cawsant eu cofrestru â hi ar enedigaeth, o gymharu â **0.8%** yn y flwyddyn flaenorol.

---

# Ein heffaith mewn rhifau



**Fe wnaethom gwblhau**

**99%**

**y cant o geisiadau cofrestru cychwynnol y DU o fewn un diwrnod,** gan ateb ein targed o 97 y cant



**Fe wnaethom gwblhau**

**99.9%**

**y cant o geisiadau gan weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol o fewn ein nod o 30 diwrnod,** gan fynd y tu hwnt i'n targed o 90 y cant

# Ailddilysu

I aros ar y gofrestr, mae angen i bob gweithiwr proffesiynol ddangos eu bod yn cynnal ymarfer diogel ac effeithiol trwy ailddilysu unwaith pob tair blynedd.

**Yn 2022–2023,**

**227,351**

**gweithwyr proffesiynol ail-ddilysu yn llwyddiannus**

**94%**

**y cant o'r rheini oedd i fod i wneud hynny**

Mae ffigurau'r flwyddyn hon yn dod â chyfraddau ailddilysu yn ôl yn unol â lefelau cyn y pandemig.

## Addasrwydd i ymarfer

Un ffordd rydym yn rheoleiddio gweithwyr proffesiynol ac yn cynnal diogelwch cyhoeddus yw ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chydymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bychan o'r gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr bob blwyddyn. Rydym yn penderfynu a yw eu sgiliau, gwybodaeth neu ymddygiad yn syrthio islaw'r safonau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig. Os ydynt yn gwneud hynny, rydym wedyn yn cymryd camau i gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

Byddwn yn gweithredu bob tro os bydd angen (gan gynnwys tynnu pobl o'n cofrestr yn yr achosion mwyaf difrifol). Ond y rhan fwyaf o'r amser y ffordd orau i gadw pobl yn ddiogel yw i nyrsys a bydwragedd proffesiynol fod yn agored am yr hyn sydd wedi digwydd a dysgu o ddigwyddiadau i atal pethau tebyg rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Wrth benderfynu a oes risg, rydym yn ystyried y cyd-destun y digwyddodd digwyddiad ynddo ac unrhyw gamau y gall gweithwyr proffesiynol fod wedi eu cymryd i gryfhau eu hymarfer ers i'r digwyddiad ddigwydd.

Yn **2022–2023** fe wnaethom dderbyn

**5,068**

**pryderon newydd**

**am nyrsys, bydwragedd a chydymdeithion nyrsio**

(4 y cant yn llai na'r flwyddyn ddiwethaf)

Fe wnaethom benderfynu **peidio ag ymchwilio i**

**4,639**

**achos ar ôl asesiad cychwynnol**

**Gorchmynion dros dro:** Mae ein panelau'n gallu cymhwyso cyfyngiadau dros dro i ymarfer rhywun neu eu hatal tra bo'n hymchwiliadau yn mynd rhagddynt os ydym yn credu bod hyn yn angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd. Digwyddodd hyn mewn 688 achos eleni.

Fe wnaethom gwblhau

**1,210**

ymchwiliad

Mewn 133 o achosion fe wnaethom roi cyngor, dosbarthu rhybudd, neu gytuno ar fesurau a fyddai'n mynd i'r afael â'r broblem.

Cafodd tua 666 o achosion eu hatgyfeirio at banelau addasrwydd i ymarfer annibynnol am wrandawiad neu gyfarfod.

Mewn 411 o achosion, nid oedd angen gweithredu ychwanegol.

Cafodd

**191**

o weithwyr proffesynol a aeth trwy ein proses addasrwydd i ymarfer eu tynnu oddi ar y gofrestr

Cytunwyd i ddileu 60 ychwanegol (lle mae gweithiwr proffesiynol wedi gofyn i gael ei dynnu o'r gofrestr). Hefyd, cafodd 155 o bobl eu hatal o'r gofrestr, rhoddwyd rhybudd i 31 a chafodd 65 o bobl amodau wedi'u gosod ar eu hymarfer.

# Ein perfformiad addasrwydd i ymarfer

Lleihau ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn ddiogel ac yn gyflym yw ein blaenoriaeth gyntaf oherwydd rydym yn adnabod yr effaith mae oediadau yn eu cael ar bobl.

Fe wnaethom leihau ein llwyth achosion o

**6,469** achos ar 31 Mawrth 2022

i **5,577** achos ar ddiwedd Mawrth 2023

Mae hyn yn bron o'n targed i gyrraedd 5,000 ond rydym wedi sefydlu tuedd ar i lawr ac rydym yn hyderus y bydd hynny'n parhau i mewn i 2023-2024.

**65%**

**Fe wnaethom osod 65 y cant o orchmynion dros dro o fewn 28 diwrnod o dderbyn pryderon**
(Targed: 80 y cant)

**61%**

**Fe wnaethom gau 61 y cant o achosion o fewn 15 mis o dderbyn pryderon**
(Targed: 80 y cant)

## Pobl yn yr NMC

Cynyddodd trosiant cyflogeion i

**12.8%**

(Targed: 12.5 y cant)

Gostyngodd trosiant dechreuwyr newydd a adawodd o fewn chwe mis i

**9.4%**

(Targed: 12.5 y cant)

Roeddem yn disgwyl cynnydd mewn trosiant ar ôl i lacio'r pandemig Covid-19 arwain at farchnad wedi'i gyrru gan ymgeiswyr. Trosiant cyfartalog Llundain (lle mae mwyafrif y cydweithwyr wedi'u lleoli) yw 12 y cant felly rydym yn unol â hyn.

# Beth wnaethom ei wario


**Ein hincwm oedd**

**£103 miliwn**

**Fe wnaethom wario**

**£98 miliwn***

**This is how we spent this money:**



**£48m**
Addasrwydd i ymarfer

**£16m**
Ystadau, cyllid, datblygu pobl a sefydliadol

**£9m**
Addysg, safonau a pholisi

**£8m**
Technoleg gwybodaeth

**£5m**
Cynnal y gofrestr

**£5m**
Llywodraethiant, ffi cyfreithiol a'r Awdurdod Safonau Proffesiynol

**£3m**
Dibrisiant

**£3m**
Cyfathrebiadau ac ymgysylltu

Rydym yn ymwybodol fod y rhan fwyaf o'n cyllid yn dod oddi wrth y rheini ar ein cofrestr, ac mae angen inni wario'r arian hwnnw mor effeithiol â phosibl.

*Erbyn diwedd 2022-2023 roedd gennym warged o £5 miliwn. Cododd y gwarged o sawl ffactor gan gynnwys llithriad mewn recriwtio i lenwi swyddi gweigion a rhywfaint o ohirio gwariant ar brosiectau a rhaglenni. Felly bydd y gwarged yn cael ei wario ar recriwtio a gwariant ar brosiectau a rhaglenni yn y blynyddoedd i ddod.

Nid yw'r cyfansymiau unigol a restrir uchod yn adio i £98m oherwydd talgrynnu.

# Beth wnaethom ni eleni

## Fe wnaethom leihau'r nifer o achosion addasrwydd i ymarfer agored

Ers dechrau 2019–2020 rydym wedi cael llwyth achosion addasrwydd i ymarfer uchel oherwydd heriau â symud achosion yn eu blaenau mewn dull amserol, yn rhannol wedi'i achosi gan effaith y pandemig. Mae lleihau'r llwyth achosion hwn yn gyflym ac yn ddiogel yn hanfodol bwysig i bawb a effeithir felly mae'n brif flaenoriaeth gorfforaethol inni.

Yn ystod 2022–2023, fe wnaethom leihau ein llwyth achosion trwy effeithlonrwydd cynyddol a rheoleiddio caredig ac ystyriol i bawb oedd yn rhan o'r achosion. Aeth y llwyth achosion o 6,469 achos ar 31 Mawrth 2022 i 5,577 erbyn diwedd Mawrth 2023. Er yn brin o'n targed o gyfanswm llwyth achosion o 5,000, rydym yn hyderus o barhau â'r duedd hon am i lawr i mewn i 2023–2024.

## Fe wnaethom weithio tuag at fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb

Mae gennym gyfrifoldeb fel rheoleiddiwr a chyflogwr i wneud popeth a allwn i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiad.

Llynedd fe wnaethom ddechrau gweithredu ein cynllun EDI 2022–2025. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi **adnodd gwrth-hiliaeth** gyda GIG Lloegr a Chonffederasiwn y GIG sy'n cefnogi gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sy'n gweithio yn y GIG i frwydro yn erbyn hiliaeth. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi'r canfyddiadau o ail gam ein **hymchwil Uchelgeisiol dros Newid**, sy'n archwilio effaith ein prosesau ar weithwyr proffesiynol â nodweddion amrywiaeth gwahanol. Fe wnaethom ddefnyddio'r canfyddiadau i ddatblygu cynllun gweithredu wedi'i dargedu.

Trwy fynd i'r afael â'r heriau hyn yn fewnol, rydym yn gallu defnyddio ein rôl arweinyddiaeth a phwerau rheoleiddiol yn well i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd yn ei dro yn effeithio'n negyddol ar ganlyniadau iechyd pobl a chymunedau.

## Fe wnaethom gynorthwyo gweithwyr proffesiynol tra bo'r pwysau'n parhau yn uchel

Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol o dan bwysau sylweddol. Fe wnaethom barhau i chwarae ein rhan mewn helpu i leddfu'r pwysau hynny a chynorthwyo nyrsys a bydwragedd proffesiynol i ddarparu'r gofal diogel, effeithiol a charedig y mae gan bawb yr hawl i'w ddisgwyl.

Mae rhai o'r ffyrdd y gwnaethom hyn yn cynnwys adolygu ein gofynion iaith Saesneg i sicrhau bod pobl â'r lefel gywir o gymhwyster iaith Saesneg yn gallu gweithio'n ddiogel yn y DU; gan ehangu'r nifer o ganolfannau Archwilio Clinigol Gwrthrychol Strwythuredig (OSCE) a chynyddu capasiti profi yn sylweddol; a pharhau i gynnal cofrestr dros dro Covid-19 ar ôl i'r Llywodraeth ofyn inni ei chadw yn agored am ddwy flynedd ychwanegol.

Yn ystod y gweithredu diwydiannol gan weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sydd wedi bod yn digwydd, rydym wedi amlygu hawl gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr i gymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol cyfreithlon, gan gynnwys streiciau. Pwysleisiwyd gennym hefyd fod y Cod Ymddygiad, sy'n gosod y safonau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol ar gyfer nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio yn parhau i fod yn berthnasol.

**"Rwy'n meddwl gyda phawb sy'n ymgysylltu ac yn cynnal y sgyrsiau hyn y gallwn ni newid er gwell."**

Mynychwr Gweithdy Ymddygiad Proffesiynol a Diogelwch Cleifion

## Fe wnaethom weithio gydag eraill i wella diogelwch mewn gofal iechyd a chymdeithasol

Fe wnaethom gynorthwyo gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr i ailddilysu, cyflwyno ymagweddau newydd at sicrwydd ansawdd addysg, targedu ein gweithgaredd ymestyn a gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gwelliannau.

Roedd ac y mae diogelwch gwasanaethau mamolaeth yn ffocws allweddol o hyd. Yn ystod 2022, amlinellodd dau adroddiad fethiannau arswydus, trychinebus a hirsefydlog mewn gwasanaethau mamolaeth: adroddiad Donna Ockenden ar Ymddiriedolaeth Ysbytai GIG Amwythig a Telford ac adroddiad Dwyrain Caint Dr Bill Kirkup. Mae ein meddyliau gyda'r menywod, eu babanod a'u teuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio mor ofnadwy gan y digwyddiadau dychrynllyd hyn a chyda'r rheini a gafodd eu heffeithio gan broblemau yn Ymddiriedolaeth Ysbytai GIG Prifysgol Nottingham wrth inni aros am ganlyniad adolygiad annibynnol i wasanaethau mamolaeth yno.

Eleni fe wnaethom ystyried yn ofalus iawn ganfyddiadau adroddiadau Ockenden a Dwyrain Caint i weld pa gamau oedd angen inni eu cymryd a lle gallem weithio gydag eraill i wella amgylcheddau gwaith i sicrhau gwelliannau cynaliadwy mewn gwasanaethau mamolaeth. Rydym yn gwybod bod cydweithio ymhlith rheoleiddwyr a'n partneriaid yn allwedol i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a amlinellir yn yr adroddiadau.

Eleni fe wnaethom:

- gyflawni arolygiad arbennig o'r rhaglen fydwreigiaeth yn Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Amwythig a Telford i ddarparu sicrwydd o'r amgylchedd dysgu ymarfer i fyfyrwyr

- ysgrifennu at weithwyr proffesiynol i gynorthwyo eu hailddilysu gan ddefnyddio ein safonau newydd a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth fel rhan o ddatblygu proffesiynol parhaus

- fe wnaethom gytuno ar safon rhaglen cyn-gofrestru newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr bydwreigiaeth gael profiadau lleoliad gyda mwy nag un darparwr gwasanaethau mamolaeth fel eu bod yn cael profiad o ystod amrywiol o dimau a lleoliadau.

## Fe wnaethom osod safonau addysg a phroffesiynol cadarn sydd o fudd i bobl sy'n derbyn gofal

Fe wnaethom ddarparu set newydd o safonau ôl-gofrestru ar gyfer nyrsio iechyd cyhoeddus cymunedol arbenigol (SCPHN), a chymwysterau nyrsio cymunedol arbenigol (SPQ), a'r safonau rhaglen sy'n manylu sut y dylai cyrsiau sy'n arwain at y cwmwysterau hyn gael eu darparu.

Mae ein safonau newydd yn amlinellu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar nyrsys a bydwragedd i ddarparu gofal a chymorth arbenigol i bobl, a'r gymuned ehangach. Maen nhw'n egluro'r hyn fydd angen i weithwyr proffesiynol wybod a gallu ei wneud i ddarparu'r safon uchaf o ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol modern, ac ymarfer nyrsio iechyd cyhoeddus, mewn tirlun iechyd a gofal sy'n esblygu'n barhaus.

**"Rydym yn croesawu'r safonau hyn sy'n nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymwelwyr iechyd yn y dyfodol ac yn adeiladu ar y datblygiadau yn y sylfaen dystiolaeth ar gyfer iechyd cyhoeddus ataliol i fabanod, plant a theuluoedd. Diolchwn i'r NMC am ymgysylltu â chymaint o grwpiau ac ymarferwyr yn ystod eu hymgynghoriad ac am ystyried cymaint o'r sylwadau gan y Sefydliad Ymwelwyr Iechyd."**

Alison Morton, Cyfarwyddwr Gweithredol, Y Sefydliad Ymwelwyr Iechyd

Fe wnaethom hefyd lansio safonau newydd ar gyfer addysg cyn cofrestru yn y DU. Yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE, fe wnaethom rai newidiadau i'n safonau rhaglen addysg i alluogi amrediad ehangach o fyfyrywyr i ymuno â'n cofrestr â'r wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl. Rhoddodd y newidiadau yr  hyblygrwydd i addysgwyr ddarparu cyrsiau addysg nyrsio a bydwreigiaeth blaengar.

Rhannodd dros 6,200 o bobl a phartneriaid eu safbwyntiau cychwynnol, wedi'u dilyn gan 2,500 ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gydweithiodd â ni i gyrraedd y fan hon ac rydym wedi cael ein calonogi gan y gefnogaeth i'n newidiadau.

Fe wnaethom hefyd ddechrau archwilio a oes angen rheoleiddio ymarfer datblygedig ac fe wnaethom gomisiynu dau adolygiad ymchwil annibynnol. Mae llawer o dermau ar gyfer 'ymarfer datblygedig', ond fel arfer mae hyn yn cyfeirio at nyrsys a bydwragedd profiadol sy'n gynyddol yn cymryd rolau cymhleth, annibynnol ac arbenigol y cyfeirir atynt yn gyffredin fel 'ymarfer datblygedig'.

## Fe wnaethom baratoi ar gyfer diwygio rheoleiddiol i alluogi rheoleiddio gwell, diogelach i bobl a chymunedau

Fe wnaethom barhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu fframwaith cyfreithiol newydd fydd yn moderneiddio sut rydym yn rheoleiddio Bydd buddion i bobl yn cynnwys cael cofrestr eglurach sy'n haws i'w deall; gallu gweithredu'n gyflymach i ddiogelu'r cyhoedd os oes rhywun yn methu ag ateb y safonau gofynnol o fedr ac ymddygiad; a sicrwydd ansawdd addysg cryfach a mwy cymesur.

Yn Chwefror 2023 lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth ddrafft a fyddai'n dod a chydymdeithion anaesthesia a chydymdeithion meddygon i mewn i reoleiddio. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn gweithredu fel y templed ar gyfer diwygio deddfwriaethol ehangach, gan gynnwys ein un ni. Felly buom yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr eraill i wneud yn siŵr y byddai egwyddorion y ddeddfwriaeth hon yn gweithio i ni.

## Fe wnaethom fonitro rhaglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth er budd pennaf pobl sy'n derbyn gofal

Rydym yn symud at ymagwedd fwy seiliedig ar risg ac wedi'i gyrru gan ddata. Mae hyn yn ein helpu i adnabod problemau yn rhagweithiol a gwneud ymyriadau cyn gynted ag y gallwn er budd pennaf myfyrwyr, a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt ar ôl iddynt raddio.

Llynedd canolbwyntiodd ein gwaith sicrwydd ansawdd ar gyflawni cymeradwyaethau o raglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru yn erbyn ein safonau addysg newydd. Prifysgol Eglwys Crist Caergaint oedd yr unig sefydliad lle gwrthodwyd cymeradwyo ei rhaglen, oherwydd pryderon nad oedd y rhaglen arfaethedig yn bodloni ein safonau newydd. Oherwydd nifer y pryderon a nodwyd nid oedd digon o amser i'r brifysgol ail-geisio cymeradwyaeth mewn pryd ar gyfer carfan mis Medi o fyfyrwyr. Rydym yn deall effaith gwrthod cymeradwyaeth ac rydym wedi gweithio'n agos gyda Gweithlu, Hyfforddiant ac Addysg GIG Lloegr (NHSE WTE) i gefnogi'r brifysgol a'r myfyrwyr yr effeithir arnynt.

## Fe wnaethom wella'r ffordd rydym yn gweithio

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynorthwyo ein cydweithwyr a bod gennym y galluoedd i gyflawni ein strategaeth sy'n anelu at wella iechyd a llesiant pawb, fe wnaethom ddechrau gweithredu Cynllun Pobl. Bydd hyn yn ein gwneud yn gyflogwr mwy cynhwysol sy'n denu'r talent gorau, yn datblygu cydweithwyr ac yn sicrhau bod pawb yn cael eu gwobrwyo'n briodol.

Rydym hefyd yn uwchraddio ein hoffer a systemau digidol i'w gwneud yn haws i bobl gysylltu â ni ac i gydweithwyr NMC wneud eu swyddi'n dda. Rydym wedi diweddaru ein gliniaduron ac rydym yn awr yn defnyddio Microsoft Teams sydd wedi caniatáu cydweithwyr i fod yn fwy effeithlon. Rydym hefyd wedi creu mannau gwaith sy'n cefnogi llesiant a chydweithio.

Tra'n bod yn gwneud hyn oll, rydym yn ystyriol fod ein cyllid yn dod oddi wrth bobl ar ein cofrestr a bod angen inni wario'r arian mor effeithiol â phosibl, yn enwedig o ystyried yr hinsawdd economaidd presennol.

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ

**T +44 20 7333 9333**

**nmc.org.uk**

© Hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2023

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).
©NMC 2022-2025